**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Chwefror, 2025 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Melinda Williams (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Alan Henson, Lyn Williams, Lynford Thomas, Glyn Davies , Hywel Ifans, Dan Evans, Johnny Davies

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Harry Williams, Haf Hughes

Cyn y cyfarfod cynhaliwyd Hyfforddiant y Cod Ymddygiad dan arweiniad Adrdan Safonau a Moeseg, Cyngor Sir Ceredigion. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Hywel Glyn am ddarparu'r offer technegol.

2. **PERSONOL** Dymunwyd penblwydd hapus arbennig hwyr i'r Cyng. Hywel Ifans bu'n dathlu yn ystod mis Ionawr.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**

4. **CADARNHAU COFNODION 10/12/24**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng.Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
   i. 7f (Tachwedd). **Cyfrif Banc**. Cafwyd adroddiad gan y Clerc yn dilyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru a nododd yr anawsterau lu bellach o gael banc sydd ddim yn codi ffioedd. **Penderfynwyd trosglwyddo i fancio ar-lein i ddechrau yn y flwyddyn ariannol newydd** a'r Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol.
   ii. 11iv (Tachwedd**). Di-wifr Neuaddau pentre**. Cafwyd adroddiad cynwysfawr a chyflwyniad gan y Cyng. Hywel Glyn. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** rhoi ystyriaeth lawnach i'r argymhellion yn y cyfarfod nesaf.
   iii. 11a. **Mesurau Cyflymder Ysgol Dyffryn Aeron**. Mae'r ymgyn-horiad newydd yn dod I ben ar 26ain Chwefror. Mae un o'r Twmpathau yn iawn ond mae'r un agosa at gilfan Dolbeudy dal yn creu problemau**. Penderfynwyd nodi** hyn fel ymateb i'r ymgynghoriad.
   11b. Tyrbin Gwynt Tychuryg – heb dderbyn ymateb.
   11d. Cyflymder Traffig Cribyn. Heb dderbyn ymateb.
   iv. 11 (Hydref). **Age Cymru.** Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf o dan arweiniad Carol Wiilliams yn Bore Coffi Ysgol Cribyn ar y 21ain Ionawr. Bydd y gwaith dilynol yn cynnwys trefnu sesiynau celf a sgiliau digidol i'w cynnal yn yr Ysgol. Bwriedir cynnal yr un nesaf yn Dihewyd (dyddiad i'w gadarnhau).

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR:** Y Cyng. Ceris Jones ar famolaeth.

7. **CYLLID**

   a. Tâl y Clerc mis Rhagfyr a Mis Ionawr £217.84
   b. Alan Edwards am Perspex Hysbysfwrdd Dihewyd - £144 (£120 heb TAW)

8. **THE PENSION REGULATOR**
   Ail-gofrestrwyd y Cyngor i'r gofyniad statudol hwn ar y 3ydd o Chwefror 2025.

9. **CYNLLUNIO**
   **A240932 - Clos Megan, Felinfach**, SA48 7PG. Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn y manylion am y datblygiad hwn cyn y Nadolig.

10. **GOHEBIAETH**

    a. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor Neuadd Dihewyd am y rhodd o £150 tuag at y diffibriliwr.
    b. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Apêl Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd am y rhodd o £25.00
    c. **Neges wrth Glerc Nantcwnlle am** arwydd ffordd sydd wedi cwympo ar y gyffordd yn New Inn. **Penderfynwyd ysgrifennu** at y Sir i wneud cais i'w chodi.
    d. Derbyniwyd llythyr gan Yes Cymru, Cangen Llanbed, yn gofyn am gefnogaeth i'w hymgyrch i drosglwyddo rheolaeth Stâd y Goron i Gymru. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd cefnogi'r ymgyrch.**
    e. Cais Cylch yr Iaith am gefnogaeth i argymhellion Comision Cymunedau Cymraeg i gryfhau cymunedau Cymraeg. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd cefnogi'r ymgyrch.**
    f. **Diwrnod o Fyfyrdod 2025.** Bydd Diwrnod Myfyrdod COVID-19 2025 yn cael ei gynnal ddydd Sul 9 Mawrth.. Rhagor o fanylion ar gael gov.uk/dayofreflection

11. **UNRHYW FATER ARALL**

    a. Cyflwynwyd Llyfr Ysgol Felinfach yn derbyn y rhodd i'w gyhoeddi.

    b. Baw Cŵn. Ar gais y Cyng. Lyn Williams a Lynford Thomas, p**enderfynwyd** ysgerifennu at y Sir yn gofyn am fesuriadau pellach mewn ymgais i ddatrys y broblem gynyddol yng Nghribyn a Felinfach o berchnogion cwn yn gwrthod codi baw.

c. Craciau pafin. Mae nifer o graciau wedi ymddangos ger Y Ddraig Goch a Chwrt Mynach yng Nghribyn. **Penderfynwyd** ysgrifennu at y Sir.

d. Unwaith eto mae'r hewl o rhwng Ffatri Penwern a Pandy'n ahcosi pryder oherwydd y nifer cynyddol o beiriannau trwm sy'n teithio arni. Erbyn hyn mae tirlithiad wedi digwydd a darn peryglus ar ochor yr hewl lle'r mae'r tir wedi erydu. Gofynnodd y Cyng. Alan Henson pe bai modd gofyn i'r Sir wneud archwiliad a hefyd rhoi arywddion i rybuddio am y peryglon. Penderfynwyd ysgrifennu at y Sir I wneud cais.

e. **Dŵr Ystrad Aeron. Penderfynwyd** ysgrifennu at y Sir unwaith eto yn tynnu sylw at y broblem barhaus o dŵr yn crynhoi oherywdd y ffosydd llawn.

**12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF Mawrth 11eg Neuadd Dihewyd am 7.30 o'r gloch.**